

Astudiaethau Achos y Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy 2016–2017.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at enghreifftiau o'r mathau o waith a fu'n bosibl yn ystod 2016–2017 oherwydd y rhaglen ariannu, sef y nawfed flwyddyn o'r Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

Mae'n gasgliad o'r enghreifftiau a ddarparwyd gan yr awdurdodau, a chafodd ei strwythuro i adlewyrchu a phwysleisio prif bwyntiau a nodweddion y gwaith a wnaed.

Mae'n cyd-fynd ag "Adroddiad Crynhoi 2016–2017 y Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy" ac "Adroddiad Allbynnau Diwedd Blwyddyn y Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy".

Ar lawr gwlad...

Cafodd dri chwarter o'r arian (£756,883) ei ddefnyddio i wneud gwelliannau ymarferol i fynediad sy'n bodoli eisoes.

De Cymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Llwyr Ebwy Fach

Llwybr 16km o hyd yw Llwybr Ebwy Fach, sy'n teithio drwy 14 o fannau gwyrdd cymunedol. Mae'r llwybr yn ymchwilio taith y dirwedd o'i gwreiddiau amaethyddol drwy anrhaith diwydiannu yn ôl i fod yn dir gwyrdd a dymunol. Mae'r llwybr yn dilyn afon Ebwy Fach gan roi sylw i safleoedd treftadaeth a mannau gyda bywyd gwylt helaeth, gan fynd ag ymwelwyr ar daith dysgu drwy'r cwm.

Ar ôl arolygiad gan beiriannydd strwythurol, ystyriwyd bod cyflwr hen bont fetel yng Nglo-byllau, Abertyleri, yn beryglus.

Gyda chynghor gan ecolegydd, cafodd y bont ei disodli gan ystyried tymor bridio bronwennod y dŵr. .



Ar lawr gwlad...

Gogledd Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ar ôl cais gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd-ddwyrain Cymru, mae gathiau newydd sy'n hawdd i gerddwyr eu defnyddio, yn ogystal â llwybr troed plastig 75m a ailgylchwyd, wedi'u gosod ar lwybr troed cyhoeddus ar Ystad Ddiwydiannol Wrecsam.

Yn affodus, roedd y llwybr troed wedi'i esgeuluso ers peth amser, ac nid oedd llwybr amlwg i'w weld ar y ddaear.

Ar ôl trafodaethau rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'r tiffeddiannwr, cytunwyd bod angen datrysiaid cadarn a hirdymor er mwyn mynd i'r afael â system ddraenio wael.

Roedd rhaid clirio 280m o lystyfiant dwys cyn y gellid dechrau ar y gwaith o adeiladu'r llwybr troed plastig.

Ystad Ddiwydiannol Wrecsam yw un o'r ystadau diwydiannol mwyaf yn Ewrop. Mae tua 300 o fusnesau yno, sy'n rhoi gwaith i oddeutu 8,000 o bobl.

Bydd y gwelliannau ar hyd y llwybr yn annog y cyhoedd i'w ddefnyddio a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cyfagos.



(Cyn) Llystyfiant yn rhwystro llwybr troed cyhoeddus rhif 18.



(Ar ôl) Y llwybr troed plastig a ailgylchwyd.



(Cyn) Gathiau diogelwch ar draws llwybr troed cyhoeddus rhif 18, gan atal mynediad i gerddwyr.



(Ar ôl) Giât gyfunol "Bryste" wedi'i gosod ar ôl trafodaethau â'r tiffeddiannwr.



Ar lawr gwlad...

**Gogledd Cymru: Cyngor Sir Ddinbych
Llwybr Hanes Llangollen**

Llwybr cylchol chwe milltir o hyd yw Llwybr Hanes Llangollen, sy'n eich tywys o gwmpas nifer o'r safleoedd o ddiddordeb arbennig yn y dref ac o'i hamgylch.

Gyda chymorth ariannol gan y Rhaglen Ariannu CGHWau, roedd modd i Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych gynllunio adolygiad o'i llwybrau cylchol a hyrwyddir drwy'r sir. Gwnaeth arian gan y Cynllun Datblygu Gwledig sicrhau bod modd diweddarau taflen wybodaeth Llwybr Hanes Llangollen yn 2015, sydd bellach â map OS ynddi er mwyn gwneud y gwaith o ddod o hyd i'r ffordd ac adnabod y llwybr yn haws. Gwnaeth hefyd ychwanegu llwybr ychwanegol at Gastell Dinas Brân.

Mae arian CGHT eleni wedi ychwanegu gwerth pellach at y prosiect hwn, ac wedi galluogi i'r arwyddion ar hyd y daith gael eu diweddarau – drwy brynu mynegbyst, pyst cyfeirbwyntiau a disgiau llwybr.

Gwnaeth grŵp brwdfrydig o wirfoddolwyr o ardal Llangollen osod y pyst.

Cerddwch ymlaen am ½ milltir/0.8km i Fryn Hyndryn.
Walk on for ½ mile/0.8km to Velvet Hill.
Yn ôl rhai pobl mae'r enw Bryn Hyndryn yn cyfeirio at ysgwrth hir a ddatgwyddwyd o dan **Biler Eliseig**.
Velvet Hill gets its name from the soft texture of the sheep-cropped grass and moss. Its Welsh name, Coed Hyndryn, means 'wood of the long man' and may relate to the tall skeleton unearthed beneath nearby **Eliseig's Pillar**.

Ar ôl cerdded am ½ milltir/1km arall fe gyrhaeddwch Abaty Glyn y Groes.
A ½ mile/1km walk brings you to Valle Crucis Abbey.
Ar un cyfnod **Abaty Glyn y Groes** oedd ail abaty Cymru o ran cyfnewid. Tintinn oedd y cyfnewid. Mynachod Sistersaidd a'i sefydlodd yn 1201. Bu pobl yn byw yn yr abaty tan gyfnod Diddymuri Mynachlog yn 1537. Cyfeirir enw at Biler Eliseig yfagos, set croes carreg o'r nawfed ganrif a osodwyd er cof am un o arweinyddi cyntafaf Powys.
Valle Crucis Abbey was once the second richest abbey in Wales, after Tintern. Founded by Cistercian monks in 1201, the abbey was lived in until the Dissolution of the monastery in 1537. The name means 'valley of the Cross' and refers to nearby Eliseig's Pillar, a 9th century stone cross set up in memory of an early ruler of Powys.

O Abaty Glyn y Groes dilynwch am 2 filltir/3km i Gastell Dinas Bran.
From Valle Crucis, follow the for 2 miles/3km to Dinas Bran Castle.

Adeladeiddwyd **Gastell Dinas Bran** yn yr 1260au gan y Tŷpwyss Gruffudd ap Ieuan i warchod y ffordd strategol drwy ddyffryn yr Afon Ddyffrow. Bu oes gwesthio'r Castell yn un lle, ac i'r gadawyd yn 1282. Yn y marddun, trawaddi ceri trau ar ffurf y llybyren D, set cynllun a oedd yn hoff gan y Cymry.
Built in the 1260s by a local Welsh ruler, Prince Gruffudd ap Ieuan, to guard the strategic route through the Dee Valley, **Dinas Bran Castle** had a short working life and was abandoned in 1282. The picturesque ruins features a D-shaped tower – a design favoured by the Welsh.

O Gastell Dinas Bran, mae'r llwybr yn troi'n ôl am ½ milltir/1km ac i lawr i Llangollen.
From Dinas Bran Castle, the ½ mile/1km route heads back downhill to Llangollen.

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
Denbighshire Countryside Service
01352 810614
E-bost: partycwledig.llogerheads@ddinbych.gov.uk
www.sirddinbych.gov.uk/cefngwlad
E-bost: llogerheads@countrypark@denbighshire.gov.uk
www.denbighshire.gov.uk/countryside

www.llwybraudryffrynnyddrwyd.gov.uk
www.deealleywalks.com

© Crown Copyright © Denbighshire Council 2004

deais diwylliant a hamdden yn Sir Ddinbych
choosing culture and leisure in Denbighshire

Llwybr Hanes Llangollen History Trail

Ar lawr gwlad...

De Cymru: **Cyngor Sir Fynwy**
 Llwybr y Tri Chastell

Mae blynyddoedd lawer wedi mynd heibio ers i'r mynegbyst ac arwyddion eraill gael eu hadolygu ar Llwybr y Tri Chastell. Gwelwyd bod nifer o'r pyst wedi mynd ar goll, ac roedd yr arwyddion oedd yn weddill yn gyfuniad o hen byst cyfeirbwyntiau a mynegbyst uniaith Saesneg.

Ar ôl llwyddiant y cynllun gosod mynegbyst ar Llwybr Cenedlaethol Llwybr Clawdd Offa a Llwybr Dyffryn Gwy, bachwyd ar y cyfle i wneud rhywbeth tebyg ar Llwybr y Tri Chastell.

Mae'r pyst yn benodol ar gyfer pob llwybr, ac mae ganddynt enw'r llwybr yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgiau llwybr newydd Llwybr y Tri Chastell hefyd wedi'u hychwanegu at bob postyn..



Ar lawr gwlad...

**De Cymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Mynediad at Warchodfa Natur Parc Slip o
Abercynffig.**

Ar ôl cwblhau prosiect (BR 56A) i aildefnu'r rhwydwaith hawliau tramwy ar hen safle glo brig Parc Slip – Gwarchodfa Natur Parc Slip bellach – cafodd y cyngor sawl cais gan drigolion lleol i wella'r mynediad rhwng eu heiddo nhw a phentref Abercynffig gerllaw.

Yn ogystal â cheisiadau gan y trigolion ar gyfer gwella arwyneb y llwybr troed, cafodd y cyngor hefyd gais gan Gymdeithas Ceffylau Prydain er mwyn gwella'r rhan fwyaf o'r llwybr troed a'i wneud yn llwybr ceffylau. Yn ystod ymgynghoriadau ag un o'r tîrfeddianwyr, daeth i'r amlwg eu bod yn hapus i ddiweddarau'r llwybr troed oherwydd eu bod yn cael problemau gyda marchogwyr yn defnyddio llwybrau eraill yn y warchodfa yn anghyfreithlon.



Mae'r cyngor bellach yng nghanol y broses o gofrestru'r llwybr troed yn ffurfiol fel llwybr ceffylau cyhoeddus..

Ar lawr gwlad...

Gogledd Cymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Tŷ Hyll

Gwnaed gwaith ar y cyd rhwng Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar lwybr Tŷ Hyll ger Capel Curig. Mae'r llwybr wedi bod yn destun llifogydd a chwynion dros gyfnod o sawl blwyddyn..

Er mwyn lleihau llifogydd, cafodd arwyneb y llwybr ei godi ar ran 100m o lan yr afon drwy osod cerrig. Roedd yn haws i'r cyhoedd fynd heibio ar y llwybr oherwydd hyn.

Mae'r gwaith bron wedi dileu'r angen i gerddwyr ddefnyddio llwybr arall i gerdded ochr yn ochr â phrifordd yr A5, sy'n brysur a pheryglus.



Ar lawr gwlad...

Gogledd Cymru: Cyngor Gwynedd
Ailosod y bont droed – Cymuned Mawddwy

Pont Dôl y Bont yn Ninas Mawddwy yw un o'r pontydd troed pwysicaf ym Meirionnydd. Dyma'r brif ffordd o fynd ar draws Afon Dyfi o ganol y pentref, ac mae'n rhoi cyswllt hanfodol i'r rhwydwaith hawliau tramwy ehangach yn yr ardal. Mae'r holl deithiau cerdded cylchol yn y gymuned yn defnyddio'r bont droed. Cofnodwyd dros 1,000 o gerddwyr bob mis yn defnyddio'r bont.

Ym mis Rhagfyr 2015, ar ôl cyfres o atgyweiriadau dros dro, cafodd y bont ei chau i'r cyhoedd o'r diwedd.

Ar ôl ymgynghoriad, dewiswyd cynllun pont dwy ran newydd, ar gost amcan o £100,000. Roedd hyn llawer yn rhatach na phont un rhan.

Bydd y bont droed newydd o fantais enfawr i drigolion lleol ac ymwelwyr, a bydd yn rhoi hwb enfawr i'r economi leol.



Ar lawr gwlad...

**De Cymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
 Y dramffordd**

Mae'r dramffordd yn ffurfio rhan o gofeb hynafol gofrestredig, ac mae'n gyswllt hanfodol rhwng cyfres o deithiau cerdded a hyrwyddir mewn Safle Treftadaeth y Byd. Cafodd y gwaith ei ariannu ar y cyd gan gyllid Cadw a chyllid y Rhaglen Ariannu Hawliau Tramwy.

Dros amser, gwnaeth dŵr ffo o stormydd erydu arglawdd ac arwyneb y dramffordd yn sylweddol. Gwnaed difrod na ellir mo'i gyweirio hefyd i'r biben a'r ffos o glai oherwydd yr erydiad.

Roedd y gwaith yn cynnwys ailosod y pibau presennol yn y cwlfer, ac adeiladu ffos ddraenio fas a gwregys o gerrig er mwyn sefydlu a lleihau gwaddodion.

Ffurfiwyd pwll gwanhau bach er mwyn lleihau'r posibilrwydd o erydiad pellach i rannau o'r dirwedd i'r de o geg y cwlfer.



Ar lawr gwlad...

De Cymru:

Cyngor Sir Fynwy
Catbrook

Roedd draeniau wedi'u difrodi gan y gilffordd gyfyngedig hon ac roedd yn cael ei herydu.

Gwnaed gwaith arwynebu ar tua 800m o'r arwyneb. Gosodwyd pibellau draenio newydd a gwnaed gwaith atgyweirio i'r arwyneb. Cyfanswm cost y prosiect oedd £5,900.



Aml-fudd...

Yn rhaglen eleni, roedd 5.4% o'r camau gweithredu o "fudd cyffredinol i bob defnyddiwr" ac roedd 30.8% yn "aml-fudd", h.y. o fudd i fwy nag un grŵp o ddefnyddwyr. At ei gilydd, gwnaeth y prosiectau hyn gyfrif am 46.8% o gyfanswm gwerth y rhaglen.

Mae hyn yn cynrychioli cwmp o ran gwerth y prosiectau a ariennir o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, lle roedd dros hanner yr arian o fudd i fwy nag un grŵp o ddefnyddwyr.

De Cymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Taith y Gigfran

Taith gerdded gylchol 14 milltir o amgylch cymoedd Sirhywi ac Ebwy yw Taith y Gigfran.

Mae Taith y Gigfran yn dilyn llwybrau troed, llwybrau ceffylau a llwybrau beic, gydag adrannau byr yn unig o'r daith ar heolydd neu lonydd.

Gwnaed gwelliannau i'r draeniad a'r arwyneb ger Rhisga. Roedd nifer o broblemau gyda nentydd yn croesi'r llwybr troed, gan achosi'r arwyneb i ddal dŵr a'i gwneud yn anodd defnyddio'r llwybr troed.

Gosodwyd pibellau a chloddwyd draeniau er mwyn galluogi'r dŵr i lifo heb achosi unrhyw ddifrod pellach, a rhoddwyd arwyneb newydd.



Aml-fudd...

De Cymru:

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cydweli a Mynydd y Garreg

Oherwydd rhaglen ariannu hawliau tramwy cyhoeddus, gall marchogwyr bellach deithio rhwng Cydweli a Mynydd y Garreg.

Mae'r llwybr ceffylau 1.18km o hyd yn gyswllt pwysig o Gydweli i Fynydd y Garreg – roedd yn mynd dan ddŵr yn aml a daeth yn gors nad oedd modd mynd drwyddi. Roedd gwaith a gefnogwyd gan Gyngor Tref Cydweli a Chymdeithas Ceffylau Prydain er mwyn datrys y broblem yn cynnwys gwaith draenio a gosod arwyneb newydd sylweddol, yn ogystal â gosod rhwystr cerbydau oedd yn addas i geffylau er mwyn atal unrhyw niwed i'r llwybr newydd.



Aml-fudd...

De Cymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Taith Sant Illtud

Ar gyfer pen-blwydd Taith Sant Illtud yn 25 oed, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (ar y cyd â Chymdeithas y Cerddwyr) wedi bod yn adlinio y daith i ddilyn hawliau tramwy cyhoeddus yn bennaf er mwyn sicrhau taith fwy diogel o fewn ystad coetir Cyfoeth Naturiol Cymru.

I'r rhai sydd eisiau cerdded yn benodol ar Daith Sant Illtud neu farchogaeth ar y llwybr ceffylau heb fynd ar y tir mynediad agored, gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot osod naw o byst cyfeirbwyntiau ar hyd y daith.



Aml-fudd...

De-orllewin Cymru: Cyngor Bro Morgannwg
Ash Path, Dinas Powys

Mae'r Ash Path yn Ninas Powys yn dioddef o ddraenio gwael, a chafwyd sawl cwyn gan rieni sy'n defnyddio'r llwybr i gerdded eu plant i'r ysgol.

Cafodd opsiynau amrywiol eu hystyried, gan gynnwys gwella'r llwybr i fod yn llwybr beiciau.

Y datrysiad oedd codi uchder y llwybr drwy'r ardaloedd oedd yn cael eu heffeithio arnynt fwyaf, gan adael ymylon bach bob ochr a defnyddio deunyddiau y gellir eu cynnwys nes ymlaen o fewn cynllun llwybr beiciau.



Aml-fudd...

Canolbarth Cymru: Cyngor Sir Powys

Llwybr ceffylau cyhoeddus ger Llys-wen

Mae'r llwybr ceffylau cyhoeddus ger Llys-wen bellach wedi'i wella ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogwyr.

Cymerodd wythnos i gwblhau gwaith i'r llwybr ceffylau, sy'n arwain at Bwll Brechfa ac sy'n ffurfio llwybr cylchol lleol poblogaidd heibio'r hen gaer.

Gwnaed gwaith i ailraddio'r arwyneb llithrig o greigwely ar y llwybr ceffylau ar ôl iddo ddod yn amhosibl cerdded arno.



Aml-fudd...

**De Cymru: Cyngor Sir Caerfyrddin
Cynhadledd Dwristiaeth Sir Gaerfyrddin**

Aeth Cyngor Sir Caerfyrddin i'r digwyddiad ar ddydd Iau, 13 Hydref, ym Mharc y Scarlets, Llanelli, er mwyn hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru, y rhaglen CGHT a'r rhwydwaith hawliau tramwy ehangach yn Sir Gaerfyrddin.

Cynhadledd Dwristiaeth Sir Gaerfyrddin yw'r gynhadledd dwristiaeth flynyddol fwyaf yn y rhanbarth – mae'n dwyn ynghyd lluo o gyflenwyr, busnesau twristiaeth, siaradwyr gwadd ysbrydoledig, cynhyrchion a sefydliadau cymorth busnes i gyd o dan un to. Mae'n gyfle gwych i hyrwyddo'r rhwydwaith hawliau tramwy a'r rhaglen grantiau CGHT yn Sir Gaerfyrddin.




Mynediad i bawb...

De Cymru:

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro
Cyfeiriadur Grwpiau Cerdded (gweithredu dros
grwpiau defnydd isel)**

Nod prosiect "Walkability" Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw torri'r rhwystrau at ddefnyddio'r cefn gwlad drwy dargedu grwpiau nad ydynt yn cymryd rhan yn aml neu o gwbl. Mae'r prosiect "Walkability" yn cyflwyno cerdded i bobl drwy raglen o deithiau cerdded a dywysir. Y nod yw y bydd pobl yn datblygu er mwyn mynd am dro ar eu pennau eu hunain. Ar ôl gwaith ymchwil a wnaed er mwyn arfarnu effeithiolrwydd y prosiect "Walkability", daeth i'r amlwg o adborth gan gleientiaid eu bod yn mwynhau cerdded fel rhan o grŵp, ac y byddai'r posibilrwydd o ymuno â grŵp yn eu hannog i gerdded yn amlach. Fodd bynnag, roedd diffyg ymwybyddiaeth o ran y grwpiau cerdded sy'n bodoli.

Pembrokeshire Walking Groups Directory		
Group Name / Base Location / Meeting Point	Group details, walk programme, other relevant walk info	Contact details
Cerddwyr cylch Teifi Cardigan area - Ceredigion and North Pembrokeshire, generally within 10 miles of Cardigan NORTH	Walk 2nd Saturday of every month October - June. Walks usually about 2 hours, meet at 10.20am for 10.30am start. Varied levels of difficulty, details shared a week before each walk, through e-mail and in local Papurau Bro and other newspapers. Phone for details. Car sharing where possible, dogs on leads and under control. Terrain generally unsuitable for buggies / wheelchairs. Free walk.	Philippa Gibson, 01239 654561 philippa.gibson@gmail.com Dyfed / Sian Elis-Gruffydd, 01239 682287 sian.ymaoahyd@btinternet.com Howard Williams, 01239 682182 howard.swsynant@btinternet.com
Gilgerran Walkers are Welcome Gilgerran Area - Meet at Millennium stone in the centre of the village NORTH	Small group of keen walkers who regularly volunteer to check local rights of way network and liaise with Pembrokeshire County Council to maintain the paths. Group size has varied from 3 to 20. Walks in the Gilgerran area on local footpaths. No regular programme but check Facebook page for occasional led walks. Various lengths, but nothing too difficult. Sometimes muddy No membership requirements. In 2013 a book of circular routes around Gilgerran was published and has received very good feedback	Sue Brown walkingilgerran.btk.co.uk Facebook: "Gilgerran Walkers are Welcome"



Nodwyd amrediad o grwpiau cerdded, a bydd y cyfeiriadur yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod y manylion cyswllt a'r nodiadau ynddo wedi'u diweddarau.

Mynediad i bawb...

**De Cymru: Cyngor Sir Penfro
Llwybr y Landsker**

Rhan brydferth a digyffwrdd o orllewin Cymru yw Llwybr y Landsker a'i gysylltiadau cymunedol. Defnyddiwyd yr arian a ddarparwyd i wneud y llwybr yn fwy hygyrch i'r rhai llai aml, ac i gynnig y mynediad lleiaf cyfyngol i'w ddefnyddwyr.

Mae gatiâu sy'n hawdd eu defnyddio wedi disodli'r camfeydd ar y rhan 13.6km o'r llwybr sydd wedi cael ei gwella. Mae pontydd, cyfeirbwyntiau clirach a thrawstiau wedi'u gosod. Mae arwyddion gwell yn rhoi profiad mwy hawdd a phlesurus i gerddwyr, ac mae llwyni wedi'u clirio.



Footpath improvements

Tuesday, 2 May 2017 By [Observer Reporter](#) in [Community News](#)



Post a comment

Improvements have been made on 13.6 km of the Landsker Borderlands trail from Canaston Bridge to Efailwen.

Work has included the installation of easy access gates, bridges, clearer way-marking, sleeper walkways and scrub clearance

The work was carried out for Pembrokeshire County Council by Llanychaer-based Pathfinders Countryside Limited under the Natural Resources Wales Rights of Way Improvement Plan funding programme.



George (second left) and Jeanette Allingham, of the Pembrokeshire Ramblers Association, are pictured with Derrick and Dilwyn Thomas from Pembrokeshire County Council's countryside section near Llawhaden church footpath inspecting the work.

Mynediad i bawb...

Gogledd Cymru: Cyngor Sir Ynys Môn

Pont droed Llangristiolus

Roedd y bont droed ger Llangristiolus mewn cyflwr gwael, ac nid oedd modd ei hatgyweirio oherwydd bod y prif drawstiau wedi rhydu'n ddifrifol. Roedd ganddi hefyd un rheilen law, ac nid oedd yn addas oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Mae'r bont yn rhoi mynediad rhwng llwybr rhif 28 a llwybr rhif 55, sy'n mynd ar hyd arglawdd amddiffyn rhag llifogydd Afon Cefni.

Ym mis Gorffennaf 2016, cyflogwyd contractwr er mwyn gosod pont newydd 8m o hyd ar y cyfodiadau oedd yn bodoli eisoes. Trawst dur a dec pren yw'r bont newydd.

Mae'r bont newydd yn galluogi llwybr cylchol trwy ddefnyddio sawl llwybr troed gwastad yng Nghors Malltraeth. Mae pob un o'r llwybrau cerdded hyn ar draciau neu ar hyd argloddiau, a phrin yw'r gatiau sydd arnynt ac nid oes unrhyw gamfeydd, felly maent yn addas ar gyfer pobl â phroblemau symudedd (er nad ydynt yn addas iawn ar gyfer cadeiriau olwyn).

Mae'n hawdd mynd at y llwybrau o bentref Llangristiolus a llwybr beiciau Lôn Las Cefni.



Mynediad i bawb...

De Cymru:


Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Taith gerdded Dyffryn Pennard, Abertawe

Un rhan o'r prosiect yw cynnig llwybr arall o amgylch Dyffryn Pennard i'r llwybr arfordirol – sydd ei hun yn daith gerdded 20 munud bleserus iawn.

Mae taith gerdded Dyffryn Pennard yn llwybr prysur iawn (30 mil a mwy o ddefnyddwyr pob blwyddyn), sy'n rhoi mynediad o Felin y Parc ar hyd y dyffryn i'r traeth a'r llwybr arfordirol. Dros y blynyddoedd, mae'r afon dros amser wedi cludo rhan o'r llwybr ymaith, ac mae cyfnodau o lanw uchel wedi gorfodi cerddwyr i fynd drwy'r afon ac wedi rhwystro mynediad ar brydiau. Yn ogystal, roedd yr hen lwybr pren oedd yn cysylltu'r adran hon o'r llwybr yn dechrau rhydu ac roedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw arno'n rheolaidd.

Tynnwyd yr hen lwybr pren, a chrëwyd llwybr newydd uwchben y llanw uchel, gan roi mynediad haws i gerddwyr a mynediad i farchogwyr.



Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd..

Bu camau i wella gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ynglŷn â mynediad llinellol yn ffordd sy'n gyson boblogaidd o ddefnyddio'r arian dros oes y rhaglen.

Gogledd Cymru: Cyngor Sir Ddinbych
Moel Famau a beicio mynydd yng ngogledd Cymru



Ar ôl y Gemau Olympaidd yn Rio, gwnaeth beicio yn ardal Moel Famau ennyn cryn gyhoeddusrwydd yn rhifyn arbennig ar Brydain o gylchgrawn Cycling World. Rhoddwyd sylw i lwybr gydag erthygl a map.


Erthygl Outdoor Recreation Network

Cyhoeddwyd erthygl gan Hannah Arndt ynglŷn â thwf beicio mynydd yng ngogledd Cymru yn rhifyn 26 o gylchgrawn Outdoor Recreation Network.

<http://www.outdoorrecreation.org.uk/stories/the-rise-of-mountain-biking-in-north-wales-the-achievements-and-the-future/>



WORKING FOR PEOPLE BEING OUTDOORS



Outdoor Recreation Network > Journals > Stories > 26 > The rise of mountain biking in North Wales: the achievements and the future

The rise of mountain biking in North Wales: the achievements and the future

Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd..

De Cymru:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Love2Walk

Dychwelodd gŵyl Love2Walk Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Mehefin 2016 i gynnis naw diwrnod o deithiau cerdded a phrofiadau – gan ddangos y gorau o'r awyr agored ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cynhelir yr ŵyl mewn partneriaeth â Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont ar Ogwr.

Archwiliwch Cefn Gwlad Pen-y-bont
Ydyd chi'n chwilio am rywbeth i'w gwneud y Pŵg hwn? Bwch am darganfyddiadau a chefn gwlad prydferth sy'n oddi allan eich ddiwy?

Explore Bridgend's Countryside
Looking for something to do this Easter? Why not get out and about and discover the beautiful coast and countryside that is right on your doorstep?

Diwyd Sadwrn 18fed - Dydd Sul 26ain Fehefin
Ydyd chi'n chwilio am rywbeth i'w gwneud y Pŵg hwn? Bwch am darganfyddiadau a chefn gwlad prydferth sy'n oddi allan eich ddiwy?

Love2Walk Festival
Saturday 17th - Sunday 25th June

Bridgend walking Fest

GŴYL Love2Walk

Bydd Gŵyl Dwi ar Gerdded Pen-y-bont ar Ogwr yn dychwelyd ym Mehefin am 9 diwrnod o deithiau cerdded a phrofiadau arddangos y gorau iawn o'r awyr agored mawr ym Mhenybont ar Ogwr.

Maer'r Wyl yn cael ei redeg mewn partneriaeth â Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont ar Ogwr ac fydd yn ddiwydd rhyng Dydd Sadwrn 18fed a Dydd Sul 26ain o Fehefin a gorau o'i, mae'n RHAD AC AM DDM. Mae'r rhaglen ar gyfer yr ŵyl wedi cael ei ddatblygu'n ddiwyddiad ac mae mor amrywiol a gellir gwneud gada teithiau cerdded i deuluoedd a phlant, buffis hanes a rhai sy'n hoff natur gyda chyllie i roi cyming ar brofiadau newydd. Ymruwch â'r tîm Porthcawl Harbwrfeistri i ddygu mwy am harlow Porthcawl neu Lyfrfaeloddy Porthcawl ar ddiwydd gerdded stori yn seiliedig ar hoff stori plenty'n Aliens in Underpants.

Dysgwch fwy am hanes y Cwm Llynfi neu archwilio coedwigoedd am gyfifl i gael profiad o ystlumod gresgryffydd. Bydd arbenigwyr lleol yn cymryd rhan mewn lawer o'r teithiau cerdded, felly yn ddiwydd i ddygu mwy am y Fforddeistref, ei natur a'i hanes. Fel byrnyddoedd blaenorol fydd bob taith yn rhad ac am ddim er bod rhai yn gofyn am archebu lle o flaen llaw gan fod llefydd yn gyfyngedig felly gwersych yn sikr eich bod yn cael eich enw i lawr fel y maent yn sicrhau fod yn boblogaidd.

Am ragor o wybodaeth a rhaglen o deithiau cerdded ymweld www.love2walk.co.uk. Ffônwch 01656 642593 neu e-bostwch love2walk@bridgend.gov.uk.



Methu cymryd rhan yn yr ŵyl Love2Walk neu eisiau archwilio ar eich pen eich hun? Peidwch â phoeni gan fod digon o fyrrdd eraill i ddarganfod y prydferth arfordir a chefn gwlad Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r tîm Hawliau Tramwy hyrwyddo cerdded, beicio a llywrau ceffylau yn amrywio o deithiau cerdded cylchol byr i llywrau pellter hir.

Unable to take part in the Love2Walk Festival or want to explore on your own? Don't worry there are plenty of other ways to discover the beautiful Bridgend Coast and countryside. The Rights of Way team promote walking, cycling and equestrian routes varying from short circular walks to longer distance routes.

Bridgend walking Fest

Love2Walk FESTIVAL

Bridgend's Love2Walk Festival returns in June for 9 days of walks and experiences showcasing the very best of the great outdoors in Bridgend.

The Festival is run in partnership with the Bridgend Local Access Forum and takes place between Saturday 18th and Sunday 26th June and best of all it's FREE. The programme for the festival has recently been unveiled and it's as varied as ever with walks for families and children, history buffs and nature lovers with a chance to try new experiences. Join the Porthcawl Harbourmasters team to learn more about Porthcawl harbour or Bridgend Libraries on a Story walk based on the children's favourite Aliens in

Underpants. Learn more about the history of the Llynfi Valley or explore woods for a chance to experience the resident bats. Local experts will be involved in many of the walks so expect to learn more about the Borough, its nature and history. As in previous years all walks are free although some require booking in advance as places are limited so make sure you get your name down.

For more info and a programme of walks visit www.love2walk.co.uk, tel 01656 642593 or email love2walk@bridgend.gov.uk.

Dyma dri o'n teithiau cerdded newyddaf



Rhos Ewenni
Taith gyfifl 6km o Rhos Ewenni trwy bentref hanesyddol Cerrtewn ac Ewenni. Dysgwch am crochenwaith Ewenni, darganfod Mithorddy Ewenni a chwydd am y bobl sydd wedi byw yno, neu, yn sgml mwyhysu: cefn gwlad y rhesydd ar y bwyd gwyllt ar Afon Ewenni.



Llangynwyd Ganol
Taith gyfifl cymunedol 8km o hyd yn mynd â chi o amgylch yr ardal hanesyddol Pentref Llangynwyd lle gallech hysgu ar y Hogon Cross ac Eglwys Sant Cymwyd. Cymweryd y olyfa o'r Cwm Llynfi i'w, coedwigoedd Bryna a Pharc Tir lari'n ddygu am y meysydd gorrffennol diwyddiantol.



Coytrahen
Am deith gerdded cylchol byrrach beth am roi cyming ar y daith gerdded Trefadaeth Coytrahen sydd ond 4km o hyd. Dewch i ddarganfod y rhyf o adellau hanesyddol yn Coytrahen cyn mynd i bentref hanesyddol Shw a dychwelyd i Goetrahen drwy'r gefn gwlad.

Here are three of the newest walks



Ewenny Moor
A 6km circular walk from Ewenny Moors through the historic villages of Cerrtewn and Ewenni. Learn about Ewenny pottery, discover Ewenny Priory and hear about the people that have lived there, or simply enjoy the countryside of the moors and the wildlife on the River Ewenny.



Llangynwyd Middle
A community circular walk 8km long taking you around the historic area of Llangynwyd Village where you can take a look at the Hogon Cross and St Cymwyd's church. Take in the views of the Lower Llynfi valley, the Bryna woods and Parc Tir lari whilst learning about the areas industrial past.



Coytrahen
For a shorter circular walk why not try the Coytrahen Heritage walk which is only 4km long. Discover the many historic buildings in Coytrahen before heading to the historic village of Shw and returning to Coytrahen through the countryside.

Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd..

Yn 2016–2017, roedd y cyfryngau cymdeithasol yn parhau'n gyfrwng poblogaidd ac effeithiol a ddefnyddir gan nifer o awdurdodau er mwyn hysbysebu eu gwaith CGHT.

monmouthshire
sir fynyw

A-Z Cymraeg

Your Council Services Education Care Business & Jobs Things to

Latest News / Council aims to extend outdoor recreation opportunities for people with disabilities

Council aims to extend outdoor recreation opportunities for people with disabilities

Article last updated: 9th November 2016, Under category: Uncategorized

Monmouthshire County Council is consulting a wide range of individuals and organising opportunities for people to gain from the health benefits and enjoyment of outdoor walking recreation. The project will centre on people with disabilities and those who do not have any.

Views from the consultation exercise will contribute to the evaluation, including identifying recreational activities and barriers to accessing current opportunities. Work on this project – funded under the Welsh Government's Rights of Way Improvements Plan – has already started and its findings should be available by the end of February 2017.

County Councillor Bob Greenland, Monmouthshire's cabinet member with responsibility for countryside services said: "I hope that this evaluation will provide an ideal opportunity for people with any type of health or disability issue to engage with us so we can make the outdoors more accessible and understand the barriers involved. We believe it is important that Monmouthshire's beautiful environment is available to all."

For further details contact the Countryside team by e-mail countryside@monmouthshire.gov.uk or telephone 01633 644850.

Love2Walk shared Margam Country Parks event

February 21 · 6

Would you like to be part of a friendly, welcoming walking group and help to improve your health and fitness?

Walks will be for no more than 1 hour and on flat surfaces - so it's suitable for all.

MAR 22 **Wednesday Walking Group**
Wed 10:15 AM - Margam Country Park - Margam
89 people interested

Like Comment

Monmouthshire Countryside shared Monmouthshire's post

November 10, 2016 · 6

If you would like to be involved contact us on countryside@monmouthshire.gov.uk


Monmouthshire

November 9, 2016 · 6

Council aims to extend outdoor recreation opportunities for people with disabilities

www.monmouthshire.gov.uk/council-aims-to-extend-outdoor-recreation-opportunities-for-people-with-disabilities

Like Page



Powys County Council

November 3, 2014 · 6

Latest news item: Penybont footpath improved by volunteers: Improvements have been made to a local footpath in mid Powys thanks to the efforts of two local...

<http://dwt.i/7PVFF7>

Like Comment Share

National Park Warden @BBParkWarden - 4 May 2016

New bridge on Govilon Line, thanks to WG, ROWIP, and National Park Warden

It's a great place to walk and cycle



Love2Walk shared Mark Blackmore's post

June 23, 2016 · 6

Love2Walk

Bridgend Love2Walk Festival 2016

Llynfi Get Active, Get Outdoors.

A free guided walk for any fitness level.

Thursday 23rd June 2016 Maesteg Welfare Park


Start Time: 5pm
Distance: Under 3 miles
Start Point: Outside Llynfi GP Surgery, Maesteg CF34 9DT
End: 6pm Grade: Easy

One of many walks in this years Love2Walk Festival, this walk will help you discover a local green space and get some gentle exercise.

There are many health & wellbeing benefits from getting more active. Doing that activity outdoors in a natural environment can be a great break from our busy everyday lives.

Meeting at the GP Surgery, this walk is for all ages and abilities, aimed at anyone who would like to do more gentle exercise and discover Maesteg Welfare Park.

Info: www.love2walk.co.uk
mark_blackmore@bridgend.gov.uk
(01656) 815058




Mark Blackmore

June 23, 2016 · 6

It is sunny and 20 degrees in Bridgend today. If you are in Maesteg at around 5pm this evening why not come on our free walk to discover Maesteg Welfare Park and meet the Keeper of the Valley.

Like Comment Share



Gwella gwybodaeth i reolwyr...

Eleni, cwblhawyd 13 o brosiectau er mwyn gwella cofnodion a chronfeydd data i reoli mynediad. Roedd hyn i gyfrif am 4% o'r arian gan y Rhaglen Ariannu CGHTau.

De Cymru: Cyngor Caerdydd

Nid yw'r map diffiniol yng Nghaerdydd wedi'i ailgyhoeddi ers 1954. Felly, ers sawl blwyddyn, mae'r swyddog map diffiniol wedi bod yn prosesu gorchmynion addasu'r map diffiniol i adlewyrchu'r holl newidiadau sydd wedi digwydd yn gyfreithiol ers 1954 hyd heddiw.

Mae'r gwaith bron â'i gwblhau, a bydd y map diffiniol newydd yn cael ei arddangos fesul plwyf ar raddfa well o 1:10,000.

Adolygu mapiau diffiniol o blwyfi

Mae ychydig o aelodau o'r Fforwm Mynediad Lleol wedi cynorthwyo'r tîm hawliau tramwy cyhoeddus drwy gerdded ar hyd llwybrau cerdded ym mhlwyfi Llys-faen, yr Eglwys Newydd a'r Rhath er mwyn edrych ar broblemau ar lawr gwlad.

Nodwyd problemau oedd yn cynnwys cyfeirbwyntiau oedd ar goll, dodrefn oedd wedi'u difrodi, arwynebau mewn cyflwr gwael a rhwystrau wedi'u gosod gan dirfeddianwyr (gatiau wedi'u cloi, llystyfiant yn tyfu ar draws y llwybr ac ati).

Nodwyd cyfeirbwyntiau gwael fel y broblem fwyaf yn yr ymarfer, yn enwedig ar draws llwybrau trefol.

Gwella gwybodaeth i reolwyr...

De Cymru:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Mabwysiadu llwybr

Mae mabwysiadu llwybr yn galluogi unigolion, teuluoedd, grwpiau o ddefnyddwyr lleol, ysgolion, y gymuned a sefydliadau gwirfoddol i ddewis llwybr i ofalu amdano.

Mae llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd ar gael i'w mabwysiadu ym mhob rhan o'r fwrdeistref sirol. Mae gwirfoddolwyr yn dewis llwybr i'w fabwysiadu, neu gellir rhoi un iddynt yn eu hardal nhw. Mae'r cyngor yn rhoi disgrifiad o'r llwybr i'r gwirfoddolwyr, a map yn dangos i ble mae'n mynd, a ffurflen adrodd semi i'w chwblhau a'i dychwelyd drwy'r post neu e-bost.

Mae gwirfoddolwyr y cynllun mabwysiadu llwybr yn dilyn eu llwybr dewisol o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ac yn anfon ffurflen adrodd wedi'i chwblhau ynglŷn â'i gyflwr a pha mor hawdd oedd i'w ddefnyddio.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn helpu'r cyngor i gadw'r rhwydwaith hawliau tramwy mewn cyflwr da er mwyn i bawb ei fwynhau. Nid yw'n ofynnol i'r gwirfoddolwyr fynd at dirfeddianwyr neu wneud unrhyw waith ymarferol ar y llwybr.

Buddsoddi mewn staff a phobl...

Ar sail yr wybodaeth gan yr awdurdodau a ariannwyd dan y rhaglen, roedd 10.5 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ddefnyddio'r Rhaglen Ariannu CGHTau yn 2016–2017, o gymharu â saith aelod o staff yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd rhai o'r swyddi'n cynnwys:

Cyngor Caerdydd: Prosiectau Caerdydd Awyr Agored

Cyngor Sir Ceredigion: Cydlynnydd Prosiect

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro : Swyddog Arolygu Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Gwelliannau

Adnodd a ddefnyddiwyd i weithredu CGHT	No of days spent on ROWIP works
Staff mewnol presennol yr awdurdod lleol (cyfuniad o staff parhaol a chyfwerth ag amser llawn)	2222.5
Contractwyr	1084.5
Gwirfoddolwyr	945
Ymgynghorwyr	193
Adnoddau eraill yn ymwneud â staff	165.5

Yn ogystal â darparu drwy eu staff eu hunain, ymgynghorwyr a chontractwyr, roedd yn amlwg, wrth lunio'r adroddiad gwaith achos hwn, fod gwirfoddolwyr yn cael eu cynnwys ac yn gwneud cyfraniad er mwyn gwella mynediad yng Nghymru.

Rheoli'r rhwydwaith a gwirfoddolwyr...

Canolbarth Cymru: Cyngor Sir Powys

Gwirfoddolwyr y Gwasanaethau Cefn Gwlad yn dechrau gwaith ar lwybrau troed cymunedol

Mae tîm o wirfoddolwyr Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Powys wedi bod yn brysur yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar ddau lwybr cyhoeddus a rhan o Lwybr Cenedlaethol er budd cymunedau lleol Abaty Cwm-hir a Bwlchysarnau.

Mae pyst cyfeirbwyntiau ychwanegol wedi'u gosod ar ran o Lwybr Cymunedol Abaty Cwm-hir lle mae'n mynd i mewn i Goed Sarnau uwchben pentref Abaty Cwm-hir.

Ar ochr arall y dyffryn, mae'r tîm wedi bod yn clirio ac yn gosod cyfeirbwyntiau ar ran o'r llwybr cyhoeddus oedd wedi tyfu'n wyllt. Mae'r gymuned leol ym Mwlchysarnau yn bwriadu cynnwys y llwybr fel rhan o daith gerdded gylchol leol sy'n cysylltu â Lwybr Cenedlaethol Lwybr Glyndŵr. Mae nifer o hen byst cyfeirbwyntiau ar Lwybr Glyndŵr hefyd wedi'u disodli fel rhan o'r gwaith.

Dywedodd y Cyngorydd W. John T. Powell, Deiliad Portffolio dros yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, "Drwy roi cymorth gweithredol i gynnal y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ym Mhowys, mae ein timau gwirfoddol, pob un dan arweinyddiaeth arweinydd tîm profiadol, yn sicrhau manteision sylweddol i bobl leol ac ymwelwyr â'r ardal."



Gwirfoddolwyr y Gwasanaethau Cefn Gwlad yn gosod pyst cyfeirbwyntiau newydd ar hyd lwybr cymunedol Abaty Cwm-hir.

Diolch i'r holl awdurdodau lleol sydd wedi cyfrannu at y gwaith o lunio'r adroddiad hwn.

Sylwch fod yr wybodaeth a gasglwyd yma wedi dod yn uniongyrchol o adroddiadau diwedd blwyddyn yr awdurdodau lleol ar gyfer blwyddyn ddiwethaf y Rhaglen Ariannu CGHTau.

Lluniwyd yr adroddiad gan Rich Dearing (Cyngorydd Gweithgareddau Hamdden a Mynediad) a Daniel Lewis (Swyddog Cyllid CGHT).